

## AIM Diploma mewn Ymarfer Cwnsela Lefel 4



### Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn darparu statws proffesiynol i chi mewn cwnsela, ac mae'n ychwanegu at y sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych eisoes, er mwyn ennyn dealltwriaeth well o'r maes, gyda phwyslais ar brofiad gydol y lleoliad.

Cyflwynir y cwrs dros 2 flynedd.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...rywun y mae ei waith o bosibl yn ymwneud â chwnsela, tebyg i nyrso, dysgu, gwaith cymdeithasol neu waith gwirfoddol, yr heddlu neu'r lluoedd arfog.

### Cynnwys y cwrs

Bydd y cymhwyster uwch hwn yn eich galluogi i weithio mewn fframwaith moesegol a



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

datblygu dealltwriaeth o'r gofynion cyfreithiol a moesegol cwnsela. Disgwylir i chi wneud defnydd priodol o arolygiaeth cwnsela o 100 awr a gwerthuso eich gwaith eich hun - mae'r lleoliad hwn yn hanfodol i'ch datblygiad personol a phroffesiynol.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, gallwch symud ymlaen i'r Diploma Lefel 5 mewn Cwnsela Seicotherapiwtig neu gymwysterau proffesiynol a fydd yn eich galluogi chi i weithio fel ymarferydd cwnsela.

## Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi fod wedi cwblhau'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Cwnsela neu'n cyfatebol.

Bydd addasrwydd i astudio yn cael ei ystyried yn ystod y broses gyfweld.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Fel rhan o'r cwrs, bydd angen i chi wneud o leiaf 100 awr o ymarfer cwnsela dan oruchwyliaeth. Mae hefyd yn ofynnol i bob myfyriwr ymgymryd â goruchwyliaeth glinigol fel rhan o'u lleoliad, efallai y bydd angen i hyn fod yn hunan-ariannu yn dibynnu ar y lleoliad.

Efallai y bydd eich Lleoliad yn gofyn i chi gwblhau gwiriad DBS ar eich cost eich hun.

Darperir rhagor o wybodaeth yn ystod y cam cyfweld. Rhennir taliad y ffi o £910.00 dros 2 flynedd fel a ganlyn: Blwyddyn 1: Medi 24 Cofrestru £135.00 Hyfforddiant £515.00 Taliad yn ddyledus ym Mlwyddyn 1 (Medi 24) - £650.00 Blwyddyn 2: Medi 25 Hyfforddiant £260.00 Taliad yn ddyledus ym Mlwyddyn 2 (Medi 25) - £260.00

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

